# EIDALWYR BARGOD RANGERS – Peter Hughes Griffiths

Wyddech chi fod tîm pêl-droed Bargod Rangers (Dre-fach, Felindre) wedi chwarae yn erbyn timau o'r Eidal a'r Almaen 'nôl ym mhedwardegau'r ganrif ddiwethaf, ac yn fwy na hynny mai i dîm Bargod Rangers y chwaraeodd yr Eidalwyr a'r Almaenwyr cyntaf yn y wlad hon?

Mae hyn yn berffaith wir!

Cyn bod sôn am Carlo Cudicini yn Chelsea a Bergkamp yn Arsenal roedd Eidalwyr ac Almaenwyr yn chwarae yng Nghynghrair Ceredigion dros Bargod Rangers.

'Sut yn y byd y digwyddodd hyn?', meddech chi.

Wel, ym mhentref bychan Henllan ar lan yr afon Teifi roedd gwersyll Carcharorion Rhyfel yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Gan ei fod yn wersyll agored roedd y carcharorion o'r Eidal a'r Almaen yn mynd allan yn ystod y dydd i weithio ar y ffermydd ac yn y pentrefi cyfagos. Roedd y carcharorion i gyd yn fechgyn ifainc heini, ac yn naturiol (yn enwedig yr Eidalwyr) yn ddwl am bêl-droed ac yn chwaraewyr medrus iawn. A chan nad oedd pêl-droed tîm Bargod Rangers ond rhyw bum can llathen o'r gwersyll, ar yr ochr hon o Afon Teifi, yn naturiol roedd cyfle i'r carcharorion chwarae yn erbyn Bargod Rangers, a thimau lleol eraill.

Ond, er cystal oedd safon pêl-droed y timau lleol fe fyddai'r Eidalwyr a'r Almaenwyr yn nhîm y gwersyll yn rhoi 'stwffad' dda i'r holl dimau. Mae cof plentyn gen i o weld rhai o'r gêmau hyn ambell noswaith braf o haf. Nid oedd cit pêl-droed gan y carcharorion, wrth gwrs, ac felly roedden nhw'n benthyca hen esgidiau a daps y bechgyn lleol a bron bob amser yn chwarae yn eu trowsusau a'u crysau pob dydd. Rwy'n cofio'n dda eu bod nhw'n curo pob tîm lleol yn rhacs. Roedden nhw'n chwaraewyr dawnus iawn.

O ganlyniad, fe arwyddodd tîm y Bargod Rangers nifer dda o'r carcharorion i chwarae drostyn nhw, a dyma pryd y chwaraeodd bechgyn o'r Eidal a'r Almaen dros dîm yn ein gwledydd ni am y tro cyntaf erioed. Wel, rwy'n hoffi meddwl hynny, beth bynnag! Ie, cyn i Ravanelli a Carbonni gael eu geni roedd rhai o'u cyn-deidiau wedi chwarae dros glwb bach Bargod Rangers ar lannau'r Teifi.

Mae un o aelodau gweithgar Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin yn fab i un o'r carcharorion rhyfel rheiny o'r Eidal. Fe arhosodd ei dad yn yr ardal a phriodi â merch leol. Mae'r ddau'n dal i fyw yng Nghastellnewydd Emlyn. Pa un o fechgyn ein clwb ni sydd ag enw Eidalaidd?